Dyddiad cyhoedd: Awst 2006

Deall canllawiau NICE

Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG

National Institute for Health and Clinical Excellence

Peginterfferon alffa a ribafirin ar gyfer trin hepatitis C cronig ysgafn

Mae'r daflen hon yn ymwneud â defnyddio peginterfferon alffa a ribafirin i drin pobl sydd â hepatitis C cronig ysgafn yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Os hoffech wybod beth y mae NICE yn ei ddweud ynglŷn â defnyddio'r cyffuriau hyn ar gyfer pobl sydd â hepatitis C ysgafn neu ddifrifol, gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein gwefan (yn www.nice.org.uk/TA075) neu gan Llinell Ymateb y GIG (ffôn 0870 1555 455 a dyfynnwch gyfeirnod N0428). Ysgrifennwyd y daflen hon ar gyfer pobl sydd â hepatitis C cronig ysgafn ond gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd neu ofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Mae 'canllawiau arfarnu technoleg' NICE yn rhoi cyngor ar bryd a sut y dylid defnyddio cyffuriau a thriniaethau eraill yn y GIG.

Nid yw'n disgrifio hepatitis C na'r triniaethau yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd drafod y rhain gyda chi. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth bellach a chymorth ar dudalen 4.

Corporate member of Plain English Campaign. 197 Committed to clearer communication.

Beth y mae NICE wedi'i ddweud am peginterfferon alfa a ribafirin ar gyfer hepatitis C cronig ysgafn?

Argymhellir peginterfferon alffa a ribafirin fel triniaethau posibl ar gyfer pobl sydd â hepatitis C cronig ysgafn os ydynt yn addas i'r person ac os cânt eu defnyddio yn y ffyrdd hyn.

- Cynigir triniaeth i berson sydd â hepatitis C cronig ysgafn gyda chyfuniad o peginterfferon alffa a ribafirin.
- Cynigir triniaeth gyda peginterfferon alffa yn unig i bobl na allant gymryd ribafirin.
- Dylai meddyg y person drafod p'un a ddylid dechrau'r driniaeth ar unwaith gyda hwy, neu p'un a ddylid aros a chymryd y cyffuriau os bydd yr afiechyd yn gwaethygu yn unig. Gelwir hyn yn 'aros gwyliadwrus'. Os bydd y person yn penderfynu aros, efallai y bydd y meddyg yn awgrymu cymryd sampl fach o'r iau (sef ‘biopsi’) i wirio pa mor ddrwg yw'r afiechyd. Efallai y bydd angen biopsi am resymau eraill hefyd.
- Bydd hyd y driniaeth yn dibynnu ar ba gyffur a ddefnyddir, faint o ddogn y bydd y person yn ei gymryd, pa fath o feirws sydd gan y person, faint o'r feirws sydd yn eu corff, a pha mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio.
- Os cafodd y person driniaeth gyda peginterfferon alffa (gyda ribafirin neu hebddo) ond nid yw wedi gweithio ar ôl 12 o wythnosau, ni ddylid cynnig ail gwrs o'r driniaeth.

Ni lwyddodd NICE i wneud argymhelliad ynghylch p'un a yw peginterfferon alffa yn addas i bobl sy'n iau nag 18 oed, neu sydd wedi cael trawsblaniad iau, gan nad oes digon o dystiolaeth.

Hepatitis C

Mae hepatitis C yn afiechyd o'r iau a achosir gan feirws hepatitis C. Mae rhai sy'n dal feirws hepatitis C yn gwella'n gyflym, ond mae'r mwyafrif o bobl yn datblygu haint hirbarhaol; fe'i gelwir yn hepatitis C cronig. Gall pobl sydd â hepatitis C cronig deimlo'n iach am nifer o flynyddoedd, ond gall y feirws eu gwneud yn sâl ac achosi difrod i'w iau yn ddiweddarach.

Efallai nad y rhain yw'r unig driniaethau posibl ar gyfer hepatitis C. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a ydynt yn addas i chi ac am opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Peginterfferon alffa a ribafirin

Mae peginterfferon alffa yn gyffur a ddefnyddir i drin feirws hepatitis C. Mae dau fath: peginterfferon alffa-2a a peginterfferon alffa-2b. Fel arfer cymerir peginterfferon alffa gyda chyffur arall a elwir yn ribafirin, ond gellir ei ddefnyddio ar ei ben ei hun ar gyfer pobl na allant gymryd ribafirin.

Beth y mae hyn yn ei olygu i mi?

Pan fydd NICE yn argymell triniaeth, rhaid i'r GIG sicrhau ei bod ar gael i'r bobl hynny y gallai eu helpu, fel arfer o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau. Felly, os oes gennych hepatitis C cronig ysgafn, a bod eich meddyg yn credu mai peginterfferon alffa (gyda ribafirin neu hebddo) yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Gweler www.nice.org.uk/aboutguidance os credwch eich bod yn gymwys i gael y driniaeth ond nad yw ar gael.

Am ragor o wybodaeth am hepatitis C

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chymorth i bobl sydd â hepatitis C. Nodwch nad yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth na chyngor a ddarperir gan y sefydliadau hyn.

- Mainliners, 020 7378 5480, www.mainliners.org.uk
- Clymblaid y DU o Bobl sy'n Byw ag HIV ac AIDS, 020 7564 2180, www.ukcoalition.org
- Ymddiriedolaeth Hepatitis C, 020 7089 6220, www.hepctrust.org.uk
- Y Gymdeithas Hemoffilia, llinell gymorth am ddim: 0800 018 6068 (10am–4pm), www.haemophilia.org.uk

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.nhs.uk) hefyd fod yn fan cychwyn da i ddysgu mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion a Chyswllt (PALS) hefyd roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio cyngor (canllawiau) i'r GIG ynglŷn ag atal, gwneud diagnosis a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried yr holl ymchwil ar yr afiechyd neu'r driniaeth, yn siarad â phobl yr effeithir arnynt ac yn ystyried y costau cysylltiedig. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I ddysgu rhagor am NICE, ei waith a sut y mae'n dod i benderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd ar gael ar www.nice.org.uk/TA106

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon drwy linell

National Institute for Health and Clinical Excellence
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk
ISBN 1-84629-272-7
N1100 5k 1P Awst 06

© National Institute for Health and Clinical Excellence, August 2006. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.